



Cam 2 - Ymarfer Cadarnhau Adolygu Cyffredinol - Geirfa 1

Gyda'ch partner, dewiswch un o'r geiriau mewn cromfachau i lenwi'r bwlch ym mhob brawddeg)



..... y Prifathro y drws yn glep. (caewyd, cauodd, caeodd, caeais)

..... ystyried y sefyllfa, mae Nia yn ffodus iawn. (dan, er, achos, gan)

Aethon ni i'r swyddfa i siarad â'r (persawr, pensaer, pennawd, pennill)

Ann ydy'r ferch galluog yma. (mwyaf, fwy, mwy, fwyaf)

Arhoswch i mi gael ystyried yr oblygiadau! (oes, enaid, eiliad, gyfnod)

Bydd angen sawl pâr arnyn nhw i godi'r cartref. (o draed, o ddwylo, o ddyrnau, o goesau)

Bydd angen iddo dynnu ei o hyn ymlaen. (bwysedd, bwysu, bwysau, bwys)

Dim ond o bobl oedd yn y pwyllgor. (tyrfa, dyrnaid, llu, tipyn)

Diolch! Y tro i mi gael blew ffair, roeddwn i'n bump. (olaf, diwethaf, nesaf, cynt)

Diolchwyd i Olwen am flynyddoedd i'r gymuned. (o faich, o gyngor, o wasanaeth, o hwyl)

Dw i'n atoch chi yn dweud hynny! (syn, syndod, synnu, rhyfeddod)

Er gwaethaf actorion da, roedd y perfformiad yn un (siom, siomedig, siomwyd, siomais)

Gobeithio y bydd y tywydd yn erbyn yfory. (gwell, gwella, gorau, glawio)

Gofynnodd am yn y ffenestr fawr. (y rhieni, y rheiny, rheiny, hynny)

Hoffwn i glywed y Frenhines yn y Senedd yfory. (clecs, sgwrs, araith, pregeth)

Mae Elwyn yn gweithio ar fferm heb fod o Fangor. (nepell, yn agos, ger, yn)

Mae'r garej rhwng y tŷ mur. (a'r, gyda'r, â'r, ar)

Mae'r hen arferion yn (brysur darfod, brysur ddarfod, prysur ddarfod, wedi darfod)



Cam 3 - Trafod, Deall ac Ystyried

Yn gyntaf, trafodwch y pynciau yng Ngrid 1. Os oes ffeil sain i gyd-fynd â'r darn hwn darllenwch trwy'r cwestiynau yng Ngrid 2 gan sicrhau bod popeth yn glir. Wedyn gwrandewch ar y darn a cheisio ateb y cwestiynau gyda'ch partner. Cewch wrando sawl gwaith. Cewch wedyn ddarllen trwy'r sgrïpt yn fanwl. Ar ddiwedd yr ymarfer, dylid trafod y pynciau a nodir yn y trydydd grid.

Os nad oes ffeil sain, darllenwch trwy'r cwestiynau yng Ngrid 2 gan sicrhau bod popeth yn glir. Wedyn darllenwch y darn gyda'ch partner a cheisio ateb y cwestiynau. Popeth arall fel uchod.

Grid 1 - Cyn Troi at y Darn

Ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw berson enwog sydd wedi camymddwyn yn y gweithle?

.....

Beth ddigwyddodd i'r person hwnnw?

.....

Ydy'n haws neu'n anos i ddisgyblu pobl erbyn hyn?

.....

Grid 2 - Deall y Darn

Pam roedd Mr Dodd wedi synnu wrth ddarllen llythyr Mr Mitchell?

.....

Beth ydy'r cam disgyblu cyntaf?

.....

Faint o amser sydd gan y person sy'n gyflogedig gan y cwmni i apelio yn erbyn unrhyw rybudd?

.....

Grid 3 - Ar ôl Darllen y Darn

Ymrannwch yn grwpiau o 3-5. Mae hen hen fodryb o'r Unol Daleithiau wedi marw ac wedi gadael pum miliwn i chi yn ei hewyllys – ond DIM OND os ydych chi'n llwyddo i gael eich diswyddo! Dim ond wythnos sydd gennych chi!!! Beth rydych chi'n mynd i'w wneud? Syniadau? Ar ddiwedd yr ymarfer, bwydwch y syniadau gorau i weddill y dosbarth.

.....

.....

.....



Sgript y Darn Gwrando/Darllen



DAVIES, WILLIAMS A DODD

WARWS NANT HYFRYD • LLANDEILO

Annwyl Mr Mitchell,

Achosion Disgyblu

Diolch am eich llythyr yn holi am gyngor am weithdrefnau disgyblu yn y cwmni. Syndod i ni oedd derbyn eich llythyr gan fod yr holl fanylion yn eich cytundeb. Fodd bynnag, dyma'r manylion eto.



Cam cyntaf y weithdrefn yw rhybudd llafar a roddir i chi mewn cyfarfod gan bennaeth eich adran. Yn y cyfarfod hwn, mae gennych hawl i gael cwmni cydweithiwr neu'ch cynrychiolydd Undeb Llafur. Ar ôl y cyfarfod cewch wybod yn ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith bod rhybudd llafar wedi ei roi ac y bydd yn aros ar eich ffeil am flwyddyn.

Bydd gennych chi hawl o fewn 14 diwrnod i wrthwynebu'r rhybudd.

Os ceir achos arall o weithred debyg, neu os ceir tramgwydd gwahanol wedyn, gall rhybudd ysgrifenedig gael ei roi. Bydd y rhybudd yn nodi:

- (a) natur y gŵyn ac unrhyw oblygiadau sy'n codi yn ei sgîl;
- (b) y ffaith eich bod wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig ac y bydd y rhybudd yn aros ar eich ffeil am flwyddyn.

Bydd gennych chi hawl i wrthwynebu'r rhybudd o fewn 14 diwrnod.

Os bydd eich gwaith neu'ch ymddygiad yn parhau'n anfoddfaol yna rhoddir rhybudd ysgrifenedig terfynol.

Tynnir eich sylw at y ffaith mai rhybudd terfynol yw hwn a chewch eich cynghori i gysylltu â'ch cynrychiolydd Undeb Llafur neu gynrychiolydd arall a ddewisir gennych. Caiff y rhybudd terfynol ei gadarnhau yn ffurfiol o fewn 5 niwrnod gwaith fel rheol.

Bydd gennych chi hawl i wrthwynebu'r rhybudd o fewn 14 diwrnod ac apelio yn ei erbyn.

Gan obeithio bod hyn yn ateb eich cwestiynau. Rhowch wybod, da chi, os bydd unrhyw gwestiwn arall,

Stephen Dodd

Stephen Dodd, Cyfarwyddwr



Cam 4 - Llenwi'r Bylchau

Llenwch y bylchau yn y darn hwn gan ddefnyddio'r geiriau ar y dde.

Annwyl Mr Mitchell,

Achosion Disgyblu

Diolch am eich llythyr yn holi _____ gyngor am weithdrefnau disgyblu yn y cwmni. Syndod _____ oedd derbyn eich llythyr gan fod yr _____ fanylion yn eich cytundeb. Fodd bynnag, dyma'r manylion eto.

Cam cyntaf y weithdrefn yw rhybudd llafar _____ roddir i chi mewn cyfarfod gan bennaeth eich adran. Yn y cyfarfod hwn, mae gennych _____ i gael cwmni cydweithiwr neu'ch cynrychiolydd Undeb Llafur. Ar ôl y cyfarfod _____ wybod yn ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith bod rhybudd llafar _____ ac y bydd yn aros ar eich ffeil am flwyddyn.

Bydd gennych chi hawl o fewn 14 diwrnod i wrthwynebu'r rhybudd.

Os _____ achos arall o weithred debyg, neu os ceir tramgwydd gwahanol wedyn, _____ rhybudd ysgrifenedig gael ei roi. Bydd y rhybudd yn nodi:

- (a) natur y gŵyn ac unrhyw oblygiadau sy'n codi _____;
- (b) y ffaith eich bod wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig ac y bydd y rhybudd yn aros ar eich ffeil am flwyddyn.

Bydd gennych chi hawl i wrthwynebu'r rhybudd o fewn 14 diwrnod.

Os bydd eich gwaith neu'ch ymddygiad yn _____ anfoddhaol yna rhoddir rhybudd ysgrifenedig terfynol. _____ eich sylw at y ffaith mai rhybudd terfynol yw hwn a _____ eich cynghori i gysylltu â'ch cynrychiolydd Undeb Llafur neu gynrychiolydd arall a _____ gennych. Caiff y rhybudd terfynol ei _____ yn ffurfiol, o fewn 5 niwrnod gwaith fel rheol.

Bydd gennych chi hawl i wrthwynebu'r rhybudd o fewn 14 diwrnod ac apelio _____.

Gan obeithio bod hyn yn ateb eich cwestiynau. Rhowch wybod, _____, os bydd unrhyw gwestiwn arall,

Stephen Dodd, Cyfarwyddwr

Gall

Hawl

I ni

Cewch

Tynnir

Wedi ei roi

A

Ceir

Am

Yn ei sgîl

Parhau'n

Holl

Chewch

Gadarnhau

Ddewisir

Yn ei erbyn

Da chi



Cam 5 - Ymarfer Llafar Prawddarllen

Cam 1

Rydych yn gweithio mewn coleg. Mae'r cyfreithiwr corfforaethol wedi gofyn i chi wirio llythyr. Yn anffodus, nid oes gan y cyfreithiwr beiriant cyflunydd na PC wrth law achos mae ar y trên ar y ffordd i Lundain felly mae'n rhaid cywiro'r llythyr dros y ffôn.

Rydych yn penderfynu gofyn i'r cyfreithiwr arddweud y llythyr i chi dros y ffôn. Bydd eich tiwtor yn chwarae rôl y person sy'n ffonio ac yn darllen y llythyr sawl gwaith. Ysgrifennwch bopeth i lawr.



Cam 2a

Bydd eich tiwtor yn sicrhau bod pawb yn gyfarwydd â'r rhain:

Dw i'n meddwl bod yr awdur wedi anghofio treiglo.

Mae treigladau meddal ar goll yn fan'na.

Mae treigladau llaes ar goll yn fan'na.

Mae treigladau trwynol ar goll yn fan'na.

Ddylai'r awdur ddim bod wedi treiglo ar ôl

Dylai'r awdur fod wedi treiglo oherwydd

Mae'r awdur wedi defnyddio'r gair anghywir.

Gair benywaidd ydy nid gair gwrywaidd.

Dylai'r awdur fod wedi defnyddio

Dylai'r awdur fod wedi defnyddio yn lle

Cam 2b

Gyda'ch partner, ewch dros y llythyr gan nodi ac esbonio'r camgymeriadau.

Bydd angen bwydo'r rhain yn ôl i'r tiwtor ar lafar ar y diwedd.



Ymarfer Llafar Prawddarlenn



Cam 3

Mae'r cyfreithiwr wedi cyrraedd Llundain ac wedi dod o hyd i beiriant cyflunio ac mae'r llythyr wedi cyrraedd. Gyda'ch partner, cywirwch y copi caled. Cofiwch drafod y camgymeriadau.

COLEG Y CWM

**Ffordd Merthyr
Abernant
Bro Morgannwg**

Miss Fran Edwards,
Trem y Fynwent,
Llanilltyd,
Bro Morgannwg.

21 Mai

Annwyl Miss Edwards,

Rwyf wedi cael ar deall gan bennaeth eich adran i chi gael eich dal yn dwyn o'r coleg am yr ail tro yr wythnos olaf.

Fel arfer, byddai hyn yn cael ei hystyried yn ymddygiad dybryd a byddech yn colli'r swydd yn syth. Deallaf, fodd bynnag, fod eich Pennaeth am roi un gyfle arall i chi gan eich bod yn gweithio'n caled i'r adran. Mae'r Pennaeth yn ymwybodol iawn bod y sefyllfa adref yn anodd i chi ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi pwysleisio difrifoldeb y sefyllfa. Rydych eisoes wedi derbyn rhybudd llafar. Rhybudd ysgrifenedig ydy'r llythyr hon.

Os bydd trydydd achos o dwyn, byddwch yn derbyn ail llythyr ysgrifenedig a bydd gan y Coleg hawl i'ch ddiswyddo.

Bydd gennych hawl i apelio wrth gwrs ac i gael eich cynrychioli gan trydydd person. Deallaf fod yr holl manylion gennych eisoes. Y peth gorau i pawb, wrth gwrs, fyddai osgoi'r sefyllfa yn llwyr.

Gan obeithio na fydd angen i mi cysylltu â chi eto ynglyn a'r mater hon.

Yn dra chywir,

Sylvia May
Cyfreithiwr y Coleg